

Newyddion Llifogydd Dyffryn Conwy

Ymunwch â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Dŵr Cymru/Welsh Water mewn sesiwn galw i mewn yn Glasdir, Llanrwst ar 25ain Ebrill rhwng 3pm and 7pm. Hoffem dderbyn eich sylwadau.

Llifogydd Dyffryn Conwy Mis Mawrth 2019

Cyrhaeddodd Afon Conwy y lefel uchaf a gofnodwyd erioed yng Nghwmlanerch ddydd Sadwrn, 16 Mawrth. Mae'r cylchlythyr hwn yn esbonio'r hyn a wnaeth yr holl asiantaethau dan sylw i baratoi ac i ymateb, a'r hyn maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd i ddysgu o'r digwyddiad.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'n galonogol nodi bod cynllun llifogydd Dyffryn Conwy wedi amddiffyn y rhan fwyaf o eiddo yn Llanrwst a Threfriw yn llwyddiannus unwaith eto rhag llifogydd.

Er gwaetha'r hyn a ddywed rhai pobl, mae'n gweithio drwy ganiatáu i ddŵr lifo i lawr y dyffryn ym Mhont Gower, gan ddefnyddio'r gorlifdir naturiol. Golyga hyn nad yw'r dŵr yn yr afon yn codi ddim uwch, a fyddai'n golygu y byddai llifogydd yn effeithio ar eiddo yn Llanrwst a Threfriw.

Yng Nghapel Curig, syrthiodd 122 milimetr o law o fewn 15 awr yn unig. Mae hyn yn 75% o'r cyfartaledd misol ar gyfer mis Mawrth a dyma'r glaw mwyaf sydd wedi disgyn mewn 15 awr ers i gofnodion ddechrau yn 1997.

Cofnodwyd glaw sylweddol hefyd mewn llawer o orsafoedd mesur eraill yn yr ardal megis Cwm Dyli,

Llanrwst, Betws y Coed ac Ysbyty Ifan.

Yn anffodus, fe wnaeth ychydig o eiddo ddiodef o ganlyniad i'r llifogydd ac rydym yn amlwg yn cydymdeimlo â'r rhai yr effeithiodd hyn arnynt. Bydd Cyngor Conwy yn cynnal adolygiad o'r digwyddiad i weld a ellir gwneud unrhyw welliannau y tro nesaf y bydd bygythiad o lifogydd.

Yr hyn a ddysgwyd

Dangosodd ymarfer diweddar fod arnom angen rhwystrau dros dro yn Llanrwst gan fod y 'Dutch Dam' wedi torri. Cafodd y rhwystrau dros dro hyn eu codi'n llwyddiannus yn ystod penwythnos 16 Mawrth. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymchwilio i'r rheswm pam yr effeithiodd y llifogydd ar gartrefi yn Nheras Conwy. Bydd system barhaol newydd yn lle'r Dutch Dam yn gweithredu erbyn yr hydref.



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

Difrodwyd ambell glawdd llifogydd ac asedau eraill yn ystod y digwyddiad hwn a byddwn yn eu hatgyweirio fel rhan o'n rhaglen gynnal a chadw arferol.

Roedd gennym nifer o bympiau y tu allan i Gartref y Borth ac rydym yn adolygu sut y cawsant eu defnyddio i weld a ellid bod wedi bod hyd yn oed yn fwy effeithiol fyth.

Efallai eich bod wedi clywed erbyn hyn fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn adolygu ei chynlluniau ar gyfer digwyddiad yr haf hwn ac rydym yn cydweithio'n agos â hwy i sicrhau gŵyl ddiogel a llwyddiannus.

Chwalu'r Mythau

Mae nifer o ddatganiadau anghywir wedi bod yn cylchredeg yn sgil y llifogydd. Dyma rai y gwnaethom sylwi arnynt

Mae llifogydd yn digwydd gan nad yw'r afon wedi cael ei "charthu".

Yn aml, nid yw carthu yn gweithio ac yn aml gall waethygu pethau drwy danseilio amddiffynfeydd. Yn ddiweddar, gwnaethom symud rhywfaint o raeau yn Bont Fawr i'n helpu i wella ein systemau monitro llifogydd a rhybuddio am lifogydd, ond ni fyddai hyn wedi lleihau lefelau llifogydd yn y dyffryn.

Roedd allwedd y rhwystrau dros dro yng Nghaerdydd. Nid oes angen allwedd arnom i osod y rhwystrau dros dro. Roedd yr holl offer yr oedd ei angen arnom ar gael yn hwylus yn ein depo yn Tan Lan.

Mae'r cynllun i ddiogelu tai yn Llanrwst yn cynyddu'r llifogydd yng Nghastell Gwydir. Y gwrthwyneb sy'n wir. Mae'r cynllun yn caniatáu llifddwr ar y gorlifdir ger Pont Gower, yn hytrach na "chrynhoi" a chodi i fyny'r afon. Mae hyn yn golygu bod dyfnder llifddwr i fyny'r afon o Bont Gower (gan gynnwys yr ardd yng Nghastell Gwydir) yn is na'r hyn fyddai wedi bod cyn llunio'r cynllun amddiffyn rhag llifogydd.

Pam na wnewch chi adeiladu cynllun i ddiogelu Castell Gwydir? Rydym yn cydnabod arwyddocâd hanesyddol Castell Gwydir a'i werth i dirweddau diwylliannol a ffisegol Cymru. Fodd bynnag, mae'r perygl o lifogydd yn effeithio ar erddi'r castell a'i seler lle nad oes neb yn byw. Mae hyn yn golygu nad oes digon o fanteision i gyfiawnhau buddsoddi mewn cynllun lliniaru llifogydd yng Nghastell Gwydir. Mae cyllid ar gyfer rheoli perygl llifogydd yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ac yn rhoi blaenoriaeth i gymunedau lle gallai llifogydd beryglu einioes, yn unol â pholisi'r Llywodraeth.

Gellir atal llifogydd os bydd ffosydd yn cael eu blocio yn yr ucheldiroedd a mwy o goed yn cael eu tyfu. Gall hyn helpu i leihau'r perygl o lifogydd ond ni fydd yn ei atal. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol eisoes wedi gwneud llawer o'r math hwn o waith i rwystro'r hen ddraeniau tir ar y Migneint ac rydym yn cydweithio â hwy ar fesurau eraill yng Nghwm Penmachno

Dŵr Cymru

Yn ogystal a darparu cyflenwad o ddŵr yfed parhaus o'r safon gorau, mae Dŵr Cymru – eich cwmni dŵr nid-er-elw – hefyd yn gyfrifol am gario, trin a gwaredu dŵr gwastraff sy'n cael eu greu.

Rydym yn gwneud hyn drwy rwydwaith eang o garthffosydd, gyda rhai yn cario carthffosiaeth yn unig, eraill yn cario carthffosiaeth a dŵr wyneb ac eraill dim ond dŵr wyneb.

Mae gan bentrefi yn Nyffryn Conwy gyfuniad o'r carthffosydd hyn ac ein cyfrifoldeb ni yw i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnal a chadw ac yn rhydd o unrhyw rwystrau fel y gall y dŵr lifo drwyddynt. Yn ystod cyfnodau o law trwm, maent yn gallu mynd yn llawn os ydy gormod o ddŵr wyneb yn mynd mewn iddynt.

Yn ystod y glaw mawr, fe dderbyniom nifer fechan o alwadau o ardal Dyffryn Conwy ynglŷn â charthffosydd yn gorlifo. Fe aeth tîm i ymweld a phob safle ar y pryd ac mae archwiliadau pellach nawr yn cael eu gwneud er mwyn gweld os oedd y gorlifiadau oherwydd problemau gweithredol ar y system neu oherwydd y tywydd garw.

Byddwn yn parhau i gydweithio gyda'r asiantaethau perthnasol er mwyn eu helpu i weld beth yw effaith y tywydd ar yr ardal ac os oes unrhyw wersi i'w dysgu.

Os oes gan unrhyw un problemau gyda eu rwydwaith garthffosiaeth rydym yn eich annog i gysylltu â ni ar 0800 085 3968.

 Dŵr Cymru
Welsh Water



Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Beth wnaethom ni yn ystod y llifogydd

Roedd digwyddiadau'r tywydd eithafol ar benwythnos 16/17 Mawrth yn heriol iawn i dimau ymateb tu allan i oriau swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Roedd staff y Cyngor yn ceisio ymdrin â phroblemau llifogydd o 7.30am tan y galwad olaf am 11.45pm ar y dydd Sadwrn. Yn syth wedyn roedd angen graeanu pob ffordd blaenoriaeth dros nos ac ar y bore dydd Sul, cyn dychwelyd i lanhau ar ôl llifogydd a gwaith ymchwiliad yn ystod y dydd Sul.

Roedd gwaith yn ystod y penwythnos yn cynnwys:

- Clirio sgriniau sbwriel a gyliau
- Dadflocio draeniau a cwlfertau
- Archwilio ac ymchwilio lleoliadau a nodwyd
- Dosbarthu bagiau tywod i wyro llif y dŵr
- Gosod arwyddion ar y ffyrdd yn rhybuddio am lifogydd a/neu ffyrdd wedi cau, ac ailymweld yn rheolaidd
- Derbyn mwy na 100 o alwadau ffôn gan breswylwyr sy'n cael eu heffeithio




- Diweddarau'r preswylwyr gyda'r perygl o lifogydd ar unwaith
- Ymweld ac asesu tai ar adeg perygl o lifogydd ar unwaith
- Liaising with National Cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, cynllunwyr mewn argyfwng, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub a thîm achub mynydd
- Ysgubo ffyrdd i glirio gweddillion
- Atgyweirio difrod i arwynebedd y ffyrdd
- Clirio llithriadau tir


Mae gan y Cyngor defesyryddion (meddalwedd monitro) wedi'u gosod fel rhan o'r cynlluniau lliniaru llifogydd. Roedd hyn yn caniatáu'r Swyddogion Llifogydd i fonitro o bell uchder y dŵr a rhwystrau ar y cyrsiau dŵr, rheoli perygl llifogydd lleol yn well a defnyddio adnoddau yn effeithlon. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hyn, roedd y timau yn cael eu hanfon allan pan yr oedd eu hangen, er enghraifft i glirio gweddillion. Er enghraifft, cafodd y sgrin brigau ym Mhlas Isaf yn Llanrwst ei glirio o fewn 30 munud o'r rhybudd telefesyrydd.




Cwlfertau yng Nghae Person, Llanrwst Dydd Gwener 15 Fawrth
LLun: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



Cwlfertau yng Nghae Person, Llanrwst Dydd Sadwrn 16 Fawrth
LLun: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



LD-028 CAE PERSON



Cwlfert Cae Person ar ei uchafbwynt 3pm 16 Mawrth

Beth rydym yn ei wneud rŵan?

Ar ddydd Llun, 18 Mawrth ar ôl y llifogydd, dechreuodd y Swyddogion Llifogydd weithio yn yr ardaloedd a gafodd eu heffeithio, yn curo ar ddrysau a llenwi holiaduron llifogydd gyda phreswylwyr i adnabod maint gwirioneddol a'r nifer o dai a effeithiwyd.

Erbyn dydd Iau, 28 Mawrth, roedd ein swyddogion wedi ymweld â Llanrwst, Conwy, Gyffin, Llanddoged, Penmaenmawr, Hen Golwyn, Dolwyddelan, Llanfairfechan, Betws y Coed a Threfriw.

Rydym hefyd yn delio â galwadau ffôn a dderbyniwyd yn ystod y llifogydd.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hyn, ynghyd ag archwilio cwlfertau a gyliau, i dargedu unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol i waith lliniaru llifogydd i leihau'r risg i'r boblogaeth leol.

Yr hyn byddwn ni'n ei wneud nesaf

Er bod preswylwyr yn ymwybodol o'r perygl o lifogydd yn ystod glaw sylweddol, mae'r

Are you prepared for flooding?

During extreme weather, we'll make every effort to help residents who are at imminent risk of flooding, but this does depend on the resources we have available at the time. We can't guarantee that we can assist with all flood incidents. If you are concerned that you may be at risk of flooding, we strongly recommended that you think about

putting in place your own flood protection. Sandbags help to divert and direct flows of flood water but they are not effective at protecting properties from groundwater flooding or sewer flooding. At best, sandbags only have a 40% chance of keeping water out of a property.

Sandbag Policy

Conwy Council Borough Council...

WILL use sandbags to divert the flow of flood water originating from Local Authority assets such as highway gullies, culverts and ditches

WILL use sandbags at locations where there is an imminent risk to life or property. This is subject to availability and the decision will be made by responding officers

WILL give priority to elderly and vulnerable residents

WILL collect sandbags from Council-owned land and public open spaces and dispose of them

Conwy Council Borough Council...

WILL NOT give out sandbags to private properties before a flood event

WILL NOT allow residents to collect sandbags from Council depots

WILL NOT give out sandbags to commercial properties at any time before, during or after a flood. In exceptional circumstances, we may do this to protect neighbouring residential properties or essential infrastructure from flood damage

WILL NOT collect sandbags from private land, commercial premises or residential properties. We will collect sandbags we have used for elderly or vulnerable residents.



If you are concerned that your home or business might be at risk of flooding, we recommend that you have your own flood defence measures. This could include specifically designed flood protection products.

You can get advice from The National Flood Forum, or by contacting Con Environment, Roads and Facilities Service on (01492) 575337 or erf@conwy.gov.uk



Cyngor eisiau sicrhau bod gan breswylwyr yr wybodaeth am yr hyn y gallent eu gwneud cyn y bydd y llifogydd yn digwydd i osgoi difrod domestig.

Dosbarthwyd Bwletin Preswylwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy diweddaraf i dai ym mis Chwefror 2019 ac roedd yn cynnwys cyngor ar baratoi ar gyfer llifogydd. Mae gan ein gwefan wybodaeth am baratoi a diogelu mewn llifogydd (<http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/>

Crime-and-emergencies/Preparing-for-Emergencies/Flooding/Flooding.aspx).

Byddwn yn edrych ar ffyrdd gwahanol y gallwn eu defnyddio i sicrhau bod gan breswylwyr yr wybodaeth y maent eu hangen i baratoi.

Rydym yn gweithio ar naw cynllun lliniaru llifogydd ar wahân i leihau ymhellach y perygl o lifogydd i gymunedau o fewn y Sir, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.